

Mae'r pianydd Eleanor Hodgkinson yn rhannu ei hamser rhwng perfformio, dysgu, arholi a sgrifennu. A hithau'n gerddor siambr aml ei doniau, bu'n rhan o gydweithrediadau lawer a rhoes premières fyrdd cerddoriaeth Prydain. Aeth gwaith solo â hi i Ogledd America, Denmarc, yr Iseldiroedd, yr Almaen a Ffrainc a gwêl 2020 ryddhau Cyfrol Gyntaf Gweithiau Piano Solo Cyflawn Nino Rota ar label Grand Piano Naxos. Ym maes gwaith piano cerddorfaol daeth oedau mynych gydag Opera Canolbarth Cymru, Southern Sinfonia ac Orchestra of the Swan yn cynnwys darnau comisiwn, darllediadau, recordiadau a gwaith allgyrch. Yn awdur, dyfeisiodd Eleanor lawer o brosiectau addysg a gwelodd 2014 lansio BabyGigs, Cwmni Buddiannau Cymuned sydd â'i ganolfan yng Nghanolbarth Lloegr sy'n cyflwyno cyngherddau i fabanod a phlant cyn oed ysgol ochr yn ochr â gweithdai a phrosiectau mewn ysgolion cynradd.

Yn Surrey y daeth Eleanor i oed, yn dysgu gyda Judith Burton. Wedyn astudiodd y piano yn y Royal Northern College of Music gyda Renna Kellaway cyn arbenigo mewn cyfeilio ar y piano, yn fyfyrwr gradd gyda Carole Presland dan nawdd Ymddiriedolaeth Gerddorol Iarlls Munster. Wedi hynny dyfarnwyd iddi ysgoloriaeth i astudio cyfeilio yn y Royal Academy of Music gyda Malcolm Martinieu a chwblhaodd ei hastudiaethau ym 1998. Rhoes ysgoloriaethau eto le iddi fynd i'r Seminar Cerddorion Rhyngwladol, Prussia Cove a Chanolfan Celfyddydau Banff, Canada, lle'r ymgwymerodd â phreswylad gyda'i thriawd piano yn 2001. Yn 2013 cafodd Eleanor MA yn Seicoleg Cerddoriaeth gan Brifysgol Sheffield; dyfarnwyd clod i'w thraethawd, 'Can Improvisation Alleviate Performance Anxiety?', a oedd yn sail pennod yn *New Thoughts on Piano Performance* a gyhoeddwyd gan y London International Piano Symposium.

Yn Swydd Gaerlŷr y mae cartref Eleanor, mae'n Uwch-ddarlithydd yn y Piano yn Leeds College of Music, yn Diwtor Gwadd yn y Piano yn Royal Holloway, Prifysgol Llundain ac mae'n dysgu'r piano a cherddoriaeth siambr yn Adran Iau'r Royal Academy of Music. Mae Eleanor yn hyfforddwr, yn arholwr ac yn ymgynghorydd maes llafur y piano i'r ABRSM.